

## Cwestiynau Cyffredin

### **A fydd fy nghais yn cael ei gydnabod?**

Bydd pob cais ar-lein yn cael eu cydnabod yn awtomatig. Os hoffech chi sicrhau ein bod wedi derbyn eich cais, cysylltwch â'r Tîm Recriwtio.

### **Oes rhaid i mi lenwi fy ffurflen gais mewn un sesiwn ar-lein neu a allaf fynd yn ôl ati yn nes ymlaen?**

Bydd y system yn arbed bob adran wrth i chi symud ymlaen trwy'r ffurflen gais er mwyn i chi allu ailddechrau o'r un lle, neu wneud newidiadau nes ymlaen.

### **A fydd fy nghais yn cael ei gadw'n gyfrinachol?**

Bydd, ond byddwn yn cysylltu â'ch canolwyr cyn gynted ag y byddwch wedi cael cynnig ac wedi derbyn swydd, yn amodol ar delerau ac amodau. Os ydych yn gwneud cais am swydd mewn ysgol byddwn yn cysylltu â'ch canolwyr cyn y cyfweiliad os ydych ar y rhestr fer.

### **Nid wyf yn gallu dod o hyd i rai o fy nhystysgrifau cymwysterau ac ati; a oes ots?**

Oes. Os ydych ar y rhestr fer, byddwn yn gofyn i chi ddod â chadarnhad o'ch cymwysterau i'r cyfweiliad. Cysylltwch â chorff dyfarnu'r cymhwyster a gofyn am dystysgrifau newydd (nid yw copïau yn dderbyniol).

### **A allaf olrhain cynnydd fy nghais?**

Gallwch, os ydych wedi gwneud cais ar-lein ac yn cael eich dewis ar gyfer cyfweiliad, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost i gadarnhau eich manylion cyfweiliad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich e-bost yn rheolaidd a hefyd eich hidlyddion spam os ydych yn defnyddio'r rhain. Os na fyddwch yn clywed gennym o fewn tair wythnos, gallwch gymryd yn ganiataol eich bod yn aflwyddiannus.

### **Beth os byddaf yn penderfynu tynnu fy nghais yn ôl?**

Cysylltwch â'r Tîm Recriwtio gan roi eich enw, teitl y swydd a rhif cyfeirnod y swydd yr ydych yn dymuno tynnu'n ôl ohoni. Yna, ni fydd eich cais yn cael ei gyflwyno ar gyfer llunio rhestr fer.

### **Beth os na allaf ddod ar ddyddiad / amser y cyfweiliad?**

Cysylltwch â'r 'enw cyswllt' ar yr e-bost cyfweiliad os na allwch fynd i'r cyfweiliad. Bydd y penderfyniad i ail-drefnu'r cyfweiliad yn cael ei wneud gan y Rheolwr Recriwtio ac nid oes sicrwydd y gellir gwneud hyn.

### **Pryd byddaf yn clywed canlyniad fy nghyfweliad?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn ceisio hysbysu ymgeiswyr ar ddiwrnod y cyfweiliad, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Os nad ydych wedi clywed o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfweiliad, cysylltwch â'r Rheolwr Recriwtio i gael rhagor o wybodaeth.

**A allaf gael adborth o'r cyfweiliad?**

Am adborth o'ch cyfweiliad, cysylltwch â'r Rheolwr Recriwtio a fydd yn gallu eich helpu.